**DIM EMBARGO – I’W GYHOEDDI AR UNWAITH**

# DATGANIAD I’R WASG:

**SESIYNAU AMSER STORI NEWYDD YN Y BARRI A LLANILLTUD FAWR**

Mae’r sesiynau yn rhad ac am ddim, ac yn addas i blant 0-4 mlwydd oed.

Mae Amser Stori yn ffordd gwych o godi ymwybyddiaeth a sgiliau ieithyddol plant o oedran ifanc iawn, trwy hwiangerddi a chaneuon poblogaidd Cymraeg, ac mae taflenni yn cael eu dosbarthu i’r rhieni i’w hannog i gymryd rhan yn y sesiynau hefyd.

Mae’r ymateb i’r sesiynau Amser Stori newydd yma wedi bod yn wych, ac erbyn hyn mae dros 50 o deuluoedd yn mynychu a’n mwynhau’r sesiynau hwyliog o stori a chân yn wythnosol.

*O’n i ddim yn siŵr os bydde Amser Stori yn rhy hen i'r baban achos dim ond 9 mis yw hi, ond ers mynd i’r sesiwn gyntaf yn mis Medi da ni heb golli un wythnos. Mae fy merch fach wrth ei bodd ac mae Ceri mor ddifyrrus ac yn gwneud pob cymeriad i ddod yn fyw.*
*Achos bod ’na ysgol Gymraeg newydd yn Llanilltud Fawr dwi’n teimlo bod grŵp fel hyn yn amhrisiadwy i’r ardal. Diolch i Amser Stori mae fy merch fach yn gwneud ffrindiau efo plant sy’n mynd i fynychu’r un ysgol.*
*Dwi heb siarad llawer o Gymraeg ers gadael yr ysgol, felly mae’n help enfawr i fi hefyd i wneud yn siŵr dwi byth yn colli’r iaith – mae’n hanfodol i fi ymarfer eto cyn anfon fy merch i Ysgol Dewi Sant.*
(Nia, mam Lola)

*Ers cael fy merch fach, mae'n braf gallu mynychu amrywiaeth o sesiynau babi. Aethon ni i amser stori yn Llanilltud Fawr, a wnaethom fwynhau yn fawr iawn. Mae’r arweinydd yn llawn bywyd, yn amlwg yn brofiadol ac yn mwynhau. Mae'n amlwg bod y sesiwn yn boblogaidd yn y gymdeithas oherwydd roedd yna lawer o deuluoedd arall wedi ymuno- rhai di-Gymraeg ond sydd am i’w plentyn i ddechrau'r Ysgol Gynradd newydd yn y dre. Mae gen i ddwy ferch arall sy'n 10 mlwyddyn yn hŷn, a doedd gen i ddim y dewis o sesiynau Cymraeg fel sydd ar gael nawr. Diolch i Fenter Bro Morgannwg mae hyn.*
(Rhiannon Morgan)

Mae’r sesiynau yn cael eu cynnal yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol, yn Llyfrgell y Barri bob dydd Mawrth 10.30-11am, ac yn Llyfrgell Llanilltud Fawr bob dydd Iau 10.30-11am. Does dim angen archebu lle o flaen llaw – dim ond troi fyny a mwynhau!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ffion@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888

**DIWEDD**

Nodiadau i'r Golygydd

- Mae'r sesiynau Amser Stori yma'n cael eu trefnu gan Fenter Bro Morgannwg, ac yn cael eu cefnogi gan Lyfrgelloedd y Barri a Llanilltud Fawr.
- Cafodd Menter Bro Morgannwg ei sefydlu yn Ebrill 2013, gyda'r prif nod o gynyddu'r proffil a'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y Fro.
- Mae'r sesiynau Amser Stori yma'n cael eu hariannu eleni gan grant Arian i Bawb.

Am fwy o wybodaeth: ffion@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888
Swyddog Datblygu Menter Bro Morgannwg
www.menterbromorgannwg.cymru